



Dyffryn Clwyd Mission Area

Sunday 5th February 2023

Septuagesima

Weekly PRAYER LIST

For the sick: Martin Jones

For those recently departed: Marion Rogers,
Len Roberts

Collect

Almighty God, you alone can bring order to the unruly wills and passions of sinful humanity: give your people grace so to love what you command and to desire what you promise, that, among the many changes of this world, our hearts may surely there be fixed where true joys are to be found; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Amen.

Contacts: Mission Area Office: 07543 504 486 | **Tad Huw** 07779 655 949 | **Rev Richard** 01824 703 867
Rev John 07771 232 121 | **Rev Natasha** 07984 604 878

If you would like us to continue to pray for someone, or add a new name to the prayer list – please e-mail the newsletter editor by **Wednesday lunchtime each week** on chamberlain786@btinternet.com

Services and Readings for Next Sunday - 12th February – Sexagesima. Creation Sunday
Genesis 1.1 – 2.3 Psalm 136 or 136. 1-9, 23-26 Romans 8. 18-25 Matthew 6. 25-34

| | |
|----------------|--|
| 9.00am | Llanarmon Holy Eucharist St Peter's Holy Eucharist (Traditional) |
| 9.30am | Clocaenog Holy Eucharist Cyffylliog Morning Prayer |
| 10.30am | St Peter's Sunday Worship (Informal) Llanbedr DC Holy Eucharist Llangynhafal Holy Eucharist Llanychan Matins (1662) |
| 11.00am | Llanfair DC Holy Eucharist |
| 4.00pm | Llanynys Meditation & Benediction |

Daily Services Monday to Friday

| | | |
|------------------|---------------------------------|---|
| Tuesday | 10am 6.00pm | Holy Eucharist with Chapter in St Peter's Ruthin Celtic Eucharist at Llanbedr DC |
| Wednesday | 9.30am | St Peter's Ruthin short 20 mins Holy Eucharist |
| Thursday | 9.30am | Offeren Sanctaidd St Peter's Llanbedr DC |
| Friday | 9.30am 9am-2pm | St Peter's Ruthin short 20 mins Holy Eucharist Drop in Friday in St Peter's Ruthin |

Upcoming events

Every Wednesday 10:15am - 11:30am Llanfair DC the parents & toddler group has now recommenced.

Please see the Dyffryn Clwyd website for events covering Advent, Christmas fares and Carol services <https://dyffrynclwyd.co.uk/christmas>

A reading from Isaiah (58.1-9a)

Thus says the Lord: Shout out, do not hold back! Lift up your voice like a trumpet! Announce to my people their rebellion, to the house of Jacob their sins. Yet day after day they seek me and delight to know my ways, as if they were a nation that practised righteousness and did not forsake the ordinance of their God; they ask of me righteous judgements, they delight to draw near to God. 'Why do we fast, but you do not see? Why humble ourselves, but you do not notice?'

Look, you serve your own interest on your fast-day, and oppress all your workers. Look, you fast only to quarrel and to fight and to strike with a wicked fist. Such fasting as you do today will not make your voice heard on high. Is such the fast that I choose, a day to humble oneself? Is it to bow down the head like a bulrush, and to lie in sackcloth and ashes? Will you call this a fast, a day acceptable to the Lord? Is not this the fast that I choose: to loose the bonds of injustice, to undo the thongs of the yoke, to let the oppressed go free, and to break every yoke? Is it not to share your bread with the hungry, and bring the homeless poor into your house; when you see the naked, to cover them, and not to hide yourself from your own kin?

Then your light shall break forth like the dawn, and your healing shall spring up quickly; your vindicator shall go before you, the glory of the Lord shall be your rear-guard. Then you shall call, and the Lord will answer; you shall cry for help, and he will say, Here I am.

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Psalm 112. 1-9 [, 10]

1 Alleluia. Blessed are those who fear the Lord, and have great delight in his commandments.

2 Their descendants will be mighty in the land, a generation of the faithful that will be blest.

3 Wealth and riches will be in their house, and their righteousness endures for ever.

4 Light shines in the darkness for the upright; gracious and full of compassion are the righteous.

5 It goes well with those who are generous in lending, and order their affairs with justice,

6 For they will never be shaken; the righteous will be held in everlasting remembrance.

7 They will not be afraid of any evil tidings; their heart is steadfast, trusting in the Lord.

8 Their heart is sustained and will not fear, until they see the downfall of their foes.

9 They have given freely to the poor; their righteousness stands fast for ever; their head will be exalted with honour.

10 The wicked shall see it and be angry; they shall gnash their teeth in despair; the desire of the wicked shall perish.

A reading from 1 Corinthians (2.1-12 [, 13-16])

When I came to you, brothers and sisters, I did not come proclaiming the mystery of God to you in lofty words or wisdom. For I decided to know nothing among you except Jesus Christ, and him crucified. And I came to you in weakness and in fear and in much trembling. My speech and my proclamation were not with plausible words of wisdom, but with a demonstration of the Spirit and of power, so that your faith might rest not on human wisdom but on the power of God.

Yet among the mature we do speak wisdom, though it is not a wisdom of this age or of the rulers of this age,

who are doomed to perish. But we speak God's wisdom, secret and hidden, which God decreed before the ages for our glory.

None of the rulers of this age understood this; for if they had, they would not have crucified the Lord of glory. But, as it is written, 'What no eye has seen, nor ear heard, nor the human heart conceived, what God has prepared for those who love him' - these things God has revealed to us through the Spirit; for the Spirit searches everything, even the depths of God. For what human being knows what is truly human except the human spirit that is within? So also no one comprehends what is truly God's except the Spirit of God.

Now we have received not the spirit of the world, but the Spirit that is from God, so that we may understand the gifts bestowed on us by God.

[And we speak of these things in words not taught by human wisdom but taught by the Spirit, interpreting spiritual things to those who are spiritual. Those who are unspiritual do not receive the gifts of God's Spirit, for they are foolishness to them, and they are unable to understand them because they are discerned spiritually. Those who are spiritual discern all things, and they are themselves subject to no one else's scrutiny. "For who has known the mind of the Lord so as to instruct him?" But we have the mind of Christ.]

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Listen to the Gospel of Christ according to St Matthew (5.13-20)

Glory to you, O Lord.

Jesus went up the mountain and was joined by his disciples. Then he began to teach them: 'You are the salt of the earth; but if salt has lost its taste, how can its saltiness be restored? It is no longer good for anything, but is thrown out and trampled underfoot. You are the light of the world. A city built on a hill cannot be hidden. No one after lighting a lamp puts it under the bushel basket, but on the lampstand, and it gives light to all in the house. In the same way, let your light shine before others, so that they may see your good works and give glory to your Father in heaven.

'Do not think that I have come to abolish the law or the prophets; I have come not to abolish but to fulfil. For truly I tell you, until heaven and earth pass away, not one letter, not one stroke of a letter, will pass from the law until all is accomplished. Therefore, whoever breaks one of the least of these commandments, and teaches others to do the same, will be called least in the kingdom of heaven; but whoever does them and teaches them will be called great in the kingdom of heaven.

'For I tell you, unless your righteousness exceeds that of the scribes and Pharisees, you will never enter the kingdom of heaven.'

This is the Gospel of the Lord.

Praise to you, O Christ.

Post Communion Prayer

Merciful God, you gave Jesus Christ to be for us the bread of life that those who come to him should never hunger: draw us to the Lord in faith and love that we may eat and drink with him at his table in the kingdom, where he is alive and reigns, now and for ever.

Amen.

Colect

Hollalluog Dduw, ti yn unig all ddod â threfn i chwantau a serchiadau afreolus y ddynoliaeth bechadurus: dyro ras i'th bobl i garu dy orchmynion a deisyfu dy addewidion; fel, yn aml droeon y byd hwn, y sefydlir ein calonnau'n ddiogel lle mae gwir lawenydd i'w gael; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Amen.

Darlleniad o Eseiâ (58.1-9a)

"Gwaedda'n uchel, paid ag arbed, cod dy lais fel utgorn; mynega eu gwrthryfel i'm pobl, a'u pechod i dŷ Jacob. Y maent yn fy ngheisio'n feunyddiol, ac yn deisyfu gwybod fy ffordd; ac fel cenedl sy'n gweithredu cyfiawnder, heb droi cefn ar farn eu Duw, dônt i ofyn barn gyfiawn gennyf, ac y maent yn deisyfu nesáu at Dduw. 'Pam y gwnawn ympryd, a thithau heb edrych? Pam y'n cystuddiwn ein hunain, a thithau heb sylwi?' meddant.

"Yn wir, wrth ymprydio, ceisio'ch lles eich hunain yr ydych, a gyrru ar eich gweision yn galetach. Y mae eich ympryd yn arwain i gynnen a chweryl, a tharo â dymod maleisus; nid yw'r fath ddiwrnod o ympryd yn dwyn eich llais i fyny uchod. Ai dyma'r math o ympryd a ddewisais — diwrnod i rywun ei gystuddio'i hun? A yw i grymu ei ben fel brwynen, a gwneud ei wely mewn sachliain a lludw? Ai hyn a elwi yn ympryd, yn ddiwrnod i ryngu bodd i'r Arglwydd?"

"Onid dyma'r dydd ympryd a ddewisais: tynnu ymaith rwydau anghyfiawn, a llacio clymau'r iau, gollwng yn rhydd y rhai a orthrymwyd, a dryllio pob iau? Onid rhannu dy fara gyda'r newynog, a derbyn y tlawd digartref i'th dŷ, dilladu'r noeth pan y'i gweli, a pheidio ag ymguddio rhag dy deulu dy hun?"

"Yna fe ddisgleiria d'oleuni fel y wawr, a byddi'n ffynnu mewn iechyd yn fuan; bydd dy gyfiawnder yn mynd o'th flaen, a gogoniant yr Arglwydd yn dy ddilyn. Pan elwi, bydd yr Arglwydd yn ateb, a phan waeddi, fe ddywed, 'Dyma fi.'"

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Salm 112. 1-9 [10]

1 Molwch yr Arglwydd. Gwyn ei fyd y sawl sy'n ofni'r Arglwydd, ac yn ymhyfydu'n llwyr yn ei orchmynion.

2 **Bydd ei ddisgynyddion yn gedyrn ar y ddaear, yn genhedlaeth uniawn wedi ei bendithio.**

3 Bydd golud a chyfoeth yn ei dŷ, a bydd ei gyfiawnder yn para am byth.

4 **Fe lewyrcha goleuni mewn tywyllwch i'r uniawn; y mae'r cyfiawn yn raslon a thrugarog.**

5 Da yw i bob un drugarhau a rhoi benthyg, a threfnu ei orchwylion yn onest;

6 **oherwydd ni symudir ef o gwbl, a chofir y cyfiawn dros byth.**

7 Nid yw'n ofni newyddion drwg; y mae ei galon yn ddi-gryn, yn ymddiried yn yr Arglwydd.

8 **Y mae ei galon yn ddi-sigl, ac nid ofna nes iddo weld diwedd ar ei elynion.**

9 Y mae wedi rhoi'n hael i'r tlodion; y mae ei gyfiawnder yn para am byth, a'i gorn wedi ei ddyrchafu mewn anrhydedd.

10 **Gwêl y drygionus hyn ac y mae'n ddig; ysgyrnyga'i ddannedd a chynhyrfa; ond derydd am obaith y drygionus.**

Darlleniad o 1 Corinthiaid (2.1-12 [13-16])

A minnau, pan ddeuthum atoch, gyfeillion, ni ddeuthum fel un yn rhagori mewn huodledd neu ddoethineb, wrth gyhoeddi i chwi ddirgelwch Duw. Oherwydd dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio. Mewn gwendid ac ofn a chryndod

mawr y bŷm i yn eich plith; a'm hymadrodd i a'm pregeth, nid geiriau deniadol doethineb oeddent, ond amlygiad sicr o'r Ysbryd a'i nerth, er mwyn i'ch ffydd fod yn seiliedig, nid ar ddoethineb ddynol, ond ar allu Duw.

Eto yr ydym ni yn llefaru doethineb ymhlith y rhai aeddfed, ond nid doethineb yr oes bresennol, na'r eiddo llywodraethwyr yr oes bresennol, sydd ar ddarfod amdanynt. Ond yr ydym ni'n llefaru doethineb Duw a'i dirgelwch, doethineb guddiedig, a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n dwyn i'n gogoniant.

Nid adnabu neb o lywodraethwyr yr oes bresennol mo'r ddoethineb hon; oherwydd pe buasent wedi ei hadnabod, ni fuasent wedi croeshoelio Arglwydd y gogoniant. Ond fel y mae'n ysgrifenedig: "Pethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i feddwl neb, y cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu." Eithr datguddiodd Duw hwy i ni trwy'r Ysbryd. Oblegid y mae'r Ysbryd yn plymio pob peth, hyd yn oed ddyfnderoedd Duw. Oherwydd pwy sy'n deall y natur ddynol, ond yr ysbryd sydd ym mhob un? Yr un modd nid oes neb yn gwybod natur Duw, ond Ysbryd Duw.

Ond nyni, nid ysbryd y byd a dderbyniasom, ond yr Ysbryd sydd oddi wrth Dduw, er mwyn inni wybod y pethau a roddodd Duw o'i ras i ni.

[Yr ydym yn mynegi'r rhain mewn geiriau a ddysgwyd i ni, nid gan ddoethineb ddynol, ond gan yr Ysbryd, gan esbonio pethau ysbrydol i'r rhai sydd yn meddu'r Ysbryd. Nid yw'r rhai anianol yn derbyn pethau Ysbryd Duw, oherwydd ffolineb ydynt iddynt hwy, ac ni allant eu hamgyffred, gan mai mewn modd ysbrydol y maent yn cael eu barnu. Y mae'r rhai ysbrydol yn barnu pob peth, ond ni chânt hwy eu barnu gan neb. Yng ngeiriau'r Ysgrifur: "Pwy a adnabu feddwl yr Arglwydd, i'w gyfarwyddo?" Ond y mae meddwl Crist gennym ni.]

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew (5.13-20)

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

"Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed pobl. Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid oes neb yn goleuo kannwyll a'i rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwylbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.

"Peidiwch â thybio i mi ddod i ddileu'r Gyfraith na'r proffwydi; ni ddeuthum i ddileu ond i gyflawni. Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyh, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd. Am hynny pwy bynnag fydd yn dirymu un o'r gorchmynion lleiaf hyn ac yn dysgu i eraill wneud felly, gelwir ef y lleiaf yn nheyrnas nefoedd. Ond pwy bynnag a'i ceidw ac a'i dysg i eraill, gelwir hwnn'n fawr yn nheyrnas nefoedd.

"'Rwy'n dweud wrthyh, oni fydd eich cyfiawnder chwi yn rhagori llawer ar eiddo'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nid ewch byth i mewn i deyrnas nefoedd.'

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Gweddi ar ol y Cymun

Dad trugarog, rhoddaist Iesu Grist i fod i ni yn fara'r bywyd, fel na newyna byth y rhai a ddaw ato ef: arwain ni at yr Arglwydd mewn ffydd a chariad, fel y gallwn fwyta ac yfed gydag ef wrth ei fwrdd yn y deyrnas lle mae'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn awr a hyd byth.

Amen.